# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR PENSIYNAU**

Dyddiad ac Amser

**2.00 y.h., DYDD MAWRTH, 10FED TACHWEDD, 2015**

Lleoliad

**Ystafell Gwyrfai, Swyddfeydd y Cyngor,**

**Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans  01286 679 878**

**lowrihafevans@gwynedd.gov.uk**

(Dosbarthwyd Dydd Llun, 2 Tachwedd 2015)

# PWYLLGOR PENSIYNAU

## AELODAETH (7)

## Plaid Cymru (3)

Y Cynghorwyr

| | | |
|---|---|---|
| Peredur Jenkins | W. Tudor Owen | Simon Glyn |

## Annibynnol (2)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Trevor Edwards | John Pughe Roberts |

## Llafur (1)

Y Cynghorydd Glyn Thomas

## Democratiaid Rhyddfrydol (1)

Y Cynghorwyr Stephen W. Churchman

## Aelodau Cyfetholedig

| | |
|---|---|
| Hywel Eifion Jones | Cyngor Môn |
| Margaret Lyon | Cyngor Bwrdeistref Conwy |

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N


**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried

**4. COFNODION** 1 - 3

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 8 Medi 2015 fel rhai cywir

**5. DATGANIAD O EGWYDDORION BUDDSODDI** 4 - 7

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Buddsoddi

**6. RHEOLAETH TRYSORLYS 2014/15** 8 - 12

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Buddsoddi

**7. RHEOLAETH TRYSORLYS 2015/16 – ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN** 13 - 19

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Cyllid

**8. GWYBODAETH A SGILIAU** 20 - 21

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Buddsoddi

**9. CYNNIG GWEITHREDU SYSTEM DELWEDDU INTEGREDIG GYDAG ALTAIR** 22 - 23

Cyflwyno adroddiad Rheolwr Pensiynau

**10. DISGRESIYNAU'R AWDURDOD GWEINYDDU** 24 - 31

Cyflwyno adroddiad Rheolwr Pensiynau

**11. STAFFIO'R UNED WEINYDDOL O IONAWR 2016** 32 - 35

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Cyllid

**PWYLLGOR PENSIYNAU, 08.09.15**

**Yn bresennol**: Y Cynghorwyr: Stephen Churchman, Trevor Edwards, Hywel E Jones (Cynrychiolydd Cyngor Sir Ynys Môn), Margaret Lyon (Cynrychiolydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), W Tudor Owen a John P. Roberts

Swyddogion:- Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Caroline Roberts (Rheolwr Buddsoddi) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Peredur Jenkins, Glyn Thomas a Gethin Glyn Williams

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. MATERION BRYS**

.

(a) Derbyniwyd nodyn gan y Cynghorydd Peter Read yn mynegi ei ddiolch i aelodau'r Pwyllgor Pensiynau, a'r swyddogion perthnasol, am eu caredigrwydd a'u hiwmor dros y blynyddoedd tra roedd yn aelod o'r Pwyllgor Pensiynau. Mewn ymateb, dymunwyd gwellhad buan i'r Cynghorydd Peter Read, cyn-gadeirydd y Pwyllgor Pensiynau, sydd wedi sefyll i lawr ac yn dioddef ag anaf. Penderfynwyd anfon cerdyn o ddiolch iddo am ei wasanaeth.

(b) **PRESENOLDEB YN CYNHADLEDD 'LOCAL AUTHORITY PENSION FUND FORUM (LAPFF) 2 – 4 RHAGFYR 2015**

Cyflwynwyd cais gan y Rheolwr Buddsoddi yn gofyn i'r Pwyllgor enwebu cynrychiolydd i fynychu'r gynhadledd yn Bournemouth. Cynigiwyd bod Cadeirydd y Pwyllgor, y Cynghorydd W Tudor Owen yn mynychu. Derbyniodd y cais.

**PENDERFYNWYD Y BUASAI CADEIRYDD Y PWYLLGOR PENSIYNAU YN MYNYCHU CYNHADLEDD LAPFF 2 - 4 RHAGFYR 2015.**

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 16eg o Fehefin 2015 fel rhai cywir.

**5. CYNLLUNIAU PENSIWN LLYWODRAETH LLEOL CYMRU - GWEITHIO'N GYDA'N GILYDD**

(a) Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn diweddaru'r Aelodau ar y Prosiect Cydweithio Pensiynau Cymru ynghyd ag adroddiad gan ymgynghorwyr busnes *Mercer* a oedd yn archwilio i'r posibilrwydd os oedd manteision / gwerth i uno asedau'r wyth gronfa yng Nghymru.

Mewn ymateb i gais gan y Llywodraeth mae angen sicrhau bod cronfeydd yn buddsoddi ar y cyd er mwyn lleihau costau yn sylweddol, wrth gynnal perfformiad

buddsoddi cyffredinol. Bydd y Llywodraeth yn gwahodd awdurdodau lleol i gyflwyno cynigion eu hunain i gwrdd â'r meini prawf cyffredinol o gyflawni arbedion. Cyhoeddir ymgynghoriad pellach ymlaen eleni a bydd yn gosod y meini prawf mewn manylder yn ogystal â deddfwriaeth er mwyn sicrhau bod yr awdurdodau gweinyddol sydd heb gyflwyno cynlluniau digon uchelgeisiol yn gorfod cronni. Mae'r gwaith a ymgymerwyd gan gronfeydd Cymru wedi dangos mai buddsoddi ar y cyd yw'r ffordd ymlaen a bydd datblygiad pellach o'r cydweithio ar achosion busnes yn arddangos yr ymrwymiad disgwylir gan y Llywodraeth.

Y cam nesaf yw sefydlu fframwaith cydgyfrannu ar gyfer Cronfeydd Cymru gyda'r nod o leihau ffioedd ac i ganolbwyntio ar fuddsoddiadau ecwiti yn gyntaf.

(b) Cynigiwyd ac eiliwyd i dderbyn yr argymhellion

(c) Yn ystod y drafodaeth nodwyd y sylwadau canlynol

- Pe bai penderfyniadau buddsoddi i'w gwneud ar y cyd, o ganlyniad byddai'r Pwyllgor Pensiynau yn colli ychydig o reolaeth
- Cytuno ar yr elfen bod angen arbed ffioedd, ond rhaid ystyried beth fydd goblygiadau hyn i Gronfa Gwynedd (sydd ymysg y gorau yn y wlad ar hyn o bryd).
- Rhaid ystyried y gorau i Wynedd, ond hefyd rhaid cael y gorau ar gyfer aelodau'r gronfa a pheidio cael ein gwthio gan y Llywodraeth i wneud penderfyniadau a all fod yn risg i'r gronfa.
- Bod gwerth lleihad mewn ffioedd am fod yn llai sylweddol na'r newid mewn lefel enillion gwerth buddsoddi os am dderbyn enillion llai?
- Dylid canolbwyntio ar un elfen o gydweithio yn gyntaf e.e., buddsoddiadau goddefol
- O ran yr elfennau rheolaeth buddsoddi sydd yn weddill, angen asesu mwy ar y sefyllfa.

(ch) Mewn ymateb i'r sylwadau uchod, nododd y Pennaeth Cyllid byddai opsiwn i ymuno mewn fframwaith ehangach fis Tachwedd ar yr elfen buddsoddiadau goddefol .O ran y rheolaeth buddsoddi sydd yn weddill, bod gennym ni gyfrifoldeb i barhau i edrych yn fanylach ar yr achos busnes.

(d) Cytunwyd i gefnogi gwaith pellach a derbyn yr argymhellion, gan ychwanegu bod angen i'r achos busnes adnabod materion llywodraethu mewn fframweithiau a awgrymir gan gynnwys trefn dewis cwmnïau buddsoddi.

**PENDERFYNWYD cefnogi gwaith pellach, yn benodol i:**

1. **Ymchwilio mewn i gyfleoedd i leihau ffioedd ar gyfer buddsoddiadau goddefol**

2. **Cyd-asesu'r achos busnes manwl ar gyfer fframweithiau cronni a awgrymir..**

3. **I'r achos busnes adnabod materion llywodraethu mewn fframweithiau a awgrymir.**

## 6. RHEOLAETH TRYSORLYS 2014 / 2015

(a) Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn manylu ar sut fuddsoddwyd arian parod y Gronfa Bensiwn ar y cyd gydag arian y Cyngor yn 2014/15. Roedd yr adroddiad yn cyflawni gofynion Cyfarwyddyd Statudol Llywodraeth Cynulliad Cymru.

(b) Amlinellwyd yn yr adroddiad sut roedd yr arian yn cael ei reoli er mwyn uchafu'r budd. Yn ychwanegol, rhoddwyd diweddariad ar y sefyllfa ar adennill y buddsoddiadau a wnaed gyda Banc Heritable. Adroddwyd bod 98% o'r buddsoddiadau bellach wedi eu hadennill, a mwy i ddilyn.

(c) Cynigiwyd ac eiliwyd i dderbyn yr adroddiad

**DERBYNIWYD ADRODDIAD Y RHEOLWR BUDDSODDI ER GWYBODAETH**

## 7. "KNOW YOUR ONIONS" - CYNHADLEDD YMDDIRIEDOLWYR Y CYNLLUN PENSIWN LLYWODRAETH LEOL

(a) Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cyllid yn hysbysu'r Aelodau o gynnwys a gwerth cynhadledd Ymddiriedolwyr y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2015. Tynnwyd sylw penodol at gymhlethdodau cysoni ymrwymiadau'r cynllun pensiwn (GMP) gyda chofnodion CaTHeM fydd yn dasg enfawr i staff gweinyddol y Gronfa Bensiwn sydd angen ei gwblhau erbyn Ebrill 2018. Ategwyd bod trafodaethau mewnol yn cael eu cynnal i geisio datrysiad i'r sefyllfa.

**DERBYNIWYD ADRODDIAD Y PENNAETH CYLLID ER GWYBODAETH**
.

Dechreuodd y cyfarfod am 3pm a daeth i ben 3:30pm

# Eitem 5

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| **DYDDIAD** | **10 TACHWEDD 2015** |
| **PWRPAS** | **Cadarnhau cyfyngiadau buddsoddi a chytuno proses ymgynghori** |
| **TEITL** | **DATGANIAD O EGWYDDORION BUDDSODDI** |
| **AWDUR** | **CAROLINE ROBERTS, RHEOLWR BUDDSODDI** |

## 1. CYFLWYNIAD

**1.1** Mae angen adolygu'r Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi (DEB) y Gronfa Bensiwn. Mae'r broses lawn yn gofyn am ymgynghoriad gyda buddgyfranogwyr a'r bwriad yw cwblhau'r broses erbyn mis Mawrth 2016. Er hynny mae tri phenderfyniad sydd angen i'w gwneud nawr.

## 2. CYFYNGIADAU AR FUDDSODDIADAU

**2.1** Mae Atodiad 1 i Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2009 yn gosod cyfyngiadau ar gyfer gwahanol fath o fuddsoddiadau. Yng nghyfarfod y Pwyllgor Pensiynau ar 23 Mawrth 2012 penderfynwyd cynyddu rhai cyfyngiadau i'r uchafsymiau a ganiateir o dan y rheoliadau fel a ganlyn:

- Cynyddu'r swm y gellir ei fuddsoddi mewn unrhyw gontract yswiriant unigol yn cael ei godi i 35%.
- Cynyddu'r cyfyngiad ar gyfer holl gyfraniadau i bartneriaeth unigol i 5%.
- Cynyddu'r cyfyngiad ar gyfer holl gyfraniadau i bartneriaethau i 15%.

a byddai'r penderfyniadau yma yn cael eu hadolygu mewn tair blynedd.

**2.2** Felly mae angen adolygu'r penderfyniadau a wnaethpwyd ac ystyried os ydynt yn dal yn addas ar gyfer y gronfa bensiwn.

## 3. Y RHEOLIADAU

**3.1** Mae'r Rheoliadau yn rhoi'r hawl i awdurdodau gweinyddol cynyddu'r canrannau a ddelir mewn rhai math o fuddsoddiadau i'r uchafswm a nodir yn y Rheoliadau. Cyn y gall Awdurdod Gweinyddol benderfynu cynyddu'r cyfyngiadau buddsoddi mae'n rhaid iddynt gydymffurfio gyda'r gofynion canlynol:

- eu bod wedi cymryd cyngor priodol;
- fod eu polisi buddsoddi wedi ei greu i gymryd i ystyriaeth fuddioldeb buddsoddi arian y Gronfa mewn ystod eang o fuddsoddiadau a phriodoldeb buddsoddiadau neilltuol a mathau o fuddsoddiadau;
- dylai'r penderfyniad nodi:
  - a) disgrifiad o'r buddsoddiad y mae'n berthnasol i;
  - b) y cyfyngiad ar gyfanswm y buddsoddiad
  - c) y rheswm dros y penderfyniad hwnnw;
  - ch) dros ba gyfnod bydd y penderfyniad yn weithredol;
  - d) os yw'r awdurdod yn bwriadu adolygu'r penderfyniad cyn diwedd y cyfnod yn (ch), y dyddiad pryd bydd y penderfyniad yn cael ei adolygu; a
  - dd) bod y penderfyniad yn cydymffurfio gyda'r Rheoliadau.

**3.2** Wrth adolygu penderfyniadau blaenorol i gynyddu canrannau mae rhaid cydymffurfio gyda'r gofynion uchod unwaith eto.

**3.3** Mae rhaid i'r Awdurdod Gweinyddol adolygu a chyhoeddi Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi ysgrifenedig hefyd.

## 4. CYNNIG I GYNYDDU'R CYFYNGIADAU AR FUDDSODDIADAU

**4.1** Rwyf wedi gofyn am gyngor Paul Potter, ymgynghorydd y Gronfa, ar y materion yma ac mae ei ymateb fel a ganlyn:

"Yn ein barn ni, dylai'r Pwyllgor cadw'r cyfyngiadau uwch sydd ar gael o dan Atodlen 1 o'r Rheoliadau LGPS (Management and Investment of Funds) sydd yn berthnasol i gytundebau yswiriant a buddsoddiadau partneriaethau.

Mae'r cyfyngiad 35% mewn perthynas i gytundebau yswiriant yn caniatáu'r Gronfa cadw ei holl asedau goddefol gyda Blackrock yn hytrach na gorfod defnyddio dau reolwr goddefol. Mae cadw'r asedau gydag un rheolwr yn galluogi ymgymryd unrhyw waith cydbwyso neu drosglwyddiadau asedau yn fwy cost effeithiol.

Mae'r cyfyngiadau uwch ar fuddsoddiadau partneriaethau yn fanteisiol yn ein barn ni gan eu bod nhw'n galluogi'r Gronfa gwella'r amrywiad yr asedau twf. Ar hyn o bryd mae'r cyfyngiadau yma yn perthyn i'r dyraniadau targed ar gyfer ecwiti preifat (5%) ac isadeiladwaith (2.5%). Er hynny, defnyddir strwythurau

partneriaeth i gael mynediad i fathau eraill o fuddsoddiadau a gellir bod yn ddeniadol i'r Gronfa yn y dyfodol fel dulliau preifat o ddyled neu eiddo byd-eang. Mae buddsoddiadau fel o'r fath yn galluogi'r Gronfa, fel buddsoddwr tymor hir, i gael budd o'r premiwm ar asedau anhylif.

**4.2** Fel arfer caiff y cyfyngiadau yma ei adolygu gan y Pwyllgor Pensiynau bob tair blynedd fel rhan o'r DEB. Er hynny, mae'n debyg ceir newid i'r Rheoliadau yn y misoedd nesaf er mwyn caniatáu'r 'amgylchedd cronfeydd' digwydd. Disgwylir bydd y cyfyngiadau penodol yn cael eu diddymu a gellir y rheoliadau newydd yn dod i rym mor fuan â 1 Ebrill blwyddyn nesaf.

## 5. ADOLYGIAD O'R DATGANIAD O EGWYDDORION BUDDSODDI

**5.1** Fel y dynodwyd ym mharagraff 1 uchod mae adolygiad cyffredinol o'r Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi yn ddyledus. Fel arfer mae hyn yn cymryd lle fel dilyniant i'r prisiad teirblynyddol ond oherwydd yr ystyriaethau diweddar ynglŷn â chydweithio gyda chronfeydd eraill gohiriwyd yr adolygiad. Mae'r gohiriad wedi cael ei nodi gan Swyddfa Archwilio Cymru yn dilyn archwiliad blynyddol cyfrifon y Gronfa Bensiwn.

**5.2** Mae'r adolygiad yn cynnwys ymgynghoriad gyda buddgyfranogwyr cyn mabwysiadu'r Datganiad terfynol. Y bwriad yw cyhoeddi'r DEB diwygiedig erbyn Mawrth 2016.

**5.3** Er mwyn gwneud hyn awgrymir bod adolygiad cychwynnol o'r Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi yn cael ei chynhyrchu gan y swyddogion a bod y drafft yn cael ei chylchredeg i fuddgyfranogwyr yn ystod mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2015.

**5.4** Os yw'r rheoliadau yn cael eu diwygio ac mae'r cyfyngiadau penodol yn cael eu diddymu cyn 1 Ebrill 2016 newidir y DEB i adlewyrchu'r newidiadau cyn ei chyflwyno i'r pwyllgor hon.

**5.5** Cyflwynir fersiwn terfynol o'r DEB yn dilyn yr ymgynghoriad i'r Pwyllgor Pensiynau ym mis Mawrth 2016 er thrafodaeth a chymeradwyaeth.

## 6. ARGYMHELLIAD

**6.1** Rwyf yn argymell bod y Pwyllgor Pensiynau yn dilyn cyngor a rhoddwyd yn Rhan 4 uchod i ystyriaeth, ac yn cymryd yr amrywiad a chynhyrchir, bod y cyfyngiad ar y swm y gellir ei fuddsoddi mewn unrhyw gytundeb yswiriant unigol yn cael ei gadw ar 35% a bod y cyfyngiadau ar yr holl gyfraniadau i bartneriaethau unigol yn cael eu cadw ar 5% a'r holl gyfraniadau at bartneriaethau yn cael eu cadw ar 15%.

**6.2** Y bydd y cyfyngiadau uchod yn weithredol hyd nes y bydd penderfyniad i'w ddiddymu yn cael ei gymryd gan y Pwyllgor; ac y bydd y penderfyniad yn cael ei adolygu erbyn 31 Mawrth 2018.

**6.3** Er mwyn i'r penderfyniad yma fod yn weithredol, mae'r Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi yn nodi bod cyfyngiadau wedi eu pennu fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Buddsoddi mewn unrhyw gontract yswiriant | 35% |
| Holl gyfraniadau i bartneriaeth unigol | 5% |
| Holl gyfraniadau i bartneriaethau | 15% |

ac yna cyhoeddir y datganiad diwygiedig erbyn 31 Mawrth 2016.

**6.4** Gofynnir i'r Pwyllgor cytuno ar y ffordd ymlaen ar gyfer adolygiad ffurfiol y Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi.

Eitem 6

CYFARFOD: **PWYLLGOR PENSIYNAU**

DYDDIAD: **10 TACHWEDD 2015**

TEITL: **RHEOLAETH TRYSORLYS 2014/15**

PWRPAS: **Mae'n ofynnol dan God Ymarfer CIPFA i adrodd ar ganlyniadau gwir weithgarwch Rheolaeth Trysorlys y Cyngor ar ran y Gronfa Bensiwn**

ARGYMHELLIAD: **DERBYN YR ADRODDIAD ER GWYBODAETH**

AWDUR: **CAROLINE ROBERTS, RHEOLWR BUDDSODDI**

---

## 1. Cyflwyniad a Chefndir

Cafodd Cod Ymarfer CIPFA ar Reolaeth Trysorlys ei fabwysiadu gan y Cyngor hwn ar y 1af o Fawrth 2011 ac mae'r Cyngor hwn yn cydymffurfio'n llawn â'i ofynion. Mae'r Cod yn mynnu i mi adrodd ar wir ganlyniadau rheolaeth trysorlys y Cyngor yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf yn erbyn y disgwyliadau.

Yn unol â Chyfarwyddyd Statudol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol, mae'n ofynnol i'r Cyngor, fel rhan o'i swyddogaeth rheolaeth trysorlys, i baratoi Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol. Fel ymarfer da, ystyriwyd y dylai Cronfa Bensiwn Gwynedd (y "Gronfa") fabwysiadu Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys (DRhST) Cyngor Gwynedd am 2014/15, fel ei addaswyd i bwrpas y Gronfa Bensiwn. Cymeradwywyd y DRhST gan y Pwyllgor Pensiynau yn ei gyfarfod ar 17 Mawrth 2014. O ganlyniad, mae'n ofynnol i mi adrodd ar wir ganlyniadau gweithgaredd rheolaeth trysorlys 2014/15 yn erbyn y disgwyliadau.

## 2. Gweithgarwch Buddsoddi

Daeth Arweiniad diwygiedig Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Fuddsoddiadau i rym ar 1 Ebrill 2010, ac roedd yn ailadrodd yr angen i flaenoriaethu diogelwch a hylifedd, yn hytrach nag enillion. Roedd hefyd yn argymell bod strategaethau i gynnwys asesu risg credyd, rhesymau ar gyfer benthyca cyn bod angen a'r defnydd o ymgynghorwyr trysorlys.

| **Balansau'r Gronfa Bensiwn** | Balans ar 31/03/2014 £m | Balans ar 31/03/2015 £m |
|---|---|---|
| Balansau | 10.7 | 12.0 |

Yn unol â chais Pwyllgor Pensiynau 17 Mawrth 2014, cyfunwyd arian y gronfa bensiwn gyda llif arian cyffredinol y Cyngor. Fel y cytunwyd yn y Pwyllgor Pensiynau ar 24 Mawrth 2015 mae'r trefniant yn parhau yn 2015/16. Mae cyfraddau llog yn isel iawn ar hyn o bryd ond nid oes rheswm dros newid y penderfyniad hwn.

Mae'r tabl isod yn dangos crynodeb o le fuddsoddwyd yr arian cyfunedig yma yn ystod 2014/15.

| Buddsoddiadau | Balans ar 01/04/14 £'000 | Buddsoddiadau a wnaed £'000 | Aeddfediadau / Buddsoddiadau a werthwyd £'000 | Ailbrisio i Werth Teg £'000 | Balans ar 31/03/15 £'000 | Cyfradd cyfartaledd % |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfrifon Galw gyda Banciau gyda cyfraddau A- neu uwch – tymor byr | 20,825 | 157,650 | (160,055) | 0 | 18,420 | 0.47 |
| Buddsoddiadau gyda Banciau a Chymdeithasau Adeiladu gyda cyfraddau A- neu uwch – tymor byr | 27,000 | 52,597 | (42,595) | 0 | 37,002 | 0.78 |
| Covered Bond Cymdeithas Adeiladu – tymor hir | 0 | 1,088 | 0 | 33 | 1,121 | 0.45 |
| Cronfeydd Marchnad Arian | 0 | 89,796 | (89,796) | 0 | 0 | 2.09 |
| **CYFANSWM BUDDSODDIADAU** | **47,825** | **301,131** | **(292,446)** | **33** | **56,543** | |
| Cynnydd / (Gostyngiad) mewn Buddsoddiadau £m | | | | | 8,718 | |

Roedd diogelwch y buddsoddiad yn parhau i fod yn brif amcan buddsoddi i'r Awdurdod. Cafodd hyn ei gynnal drwy ddilyn polisi gwrthbarti'r Awdurdod sydd wedi'i nodi yn ei Ddatganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys ar gyfer 2014/15.

Cafodd ansawdd credyd gwrthbartïon ei asesu a'i fonitro gan yr Awdurdod drwy gyfeirio at statws credyd (isafswm y statws credyd tymor hir ar gyfer gwrthbartïon oedd A- ar draws asiantaethau statws credyd Fitch, S&P a Moody's.), amnewid diffyg credyd (*credit default swaps*), datganiadau ariannol, gwybodaeth ar cefnogaeth llywodraeth dichonadwy, ac adroddiadau yn y wasg ariannol ansawdd.

**Risg Credyd**

Mae ansawdd credyd gwrthbartion sydd yn cael ei mesur gyda credyd-raddio yn cael ei crynhoi isod:

| Dyddiad | Cyfartaledd Gwerth – Sgôr Risg Credyd | Cyfartaledd Gwerth – Statws Credyd | Cyfartaledd Amser – Sgôr Risg Credyd | Cyfartaledd Amser – Statws Credyd | Cyfartaledd y cyfnod (diwrnodau) |
|---|---|---|---|---|---|
| 31/03/2014 | 5.69 | A | 5.80 | A | 102 |
| 30/06/2014 | 5.19 | A+ | 5.12 | A+ | 139 |
| 30/09/2014 | 5.01 | A+ | 3.21 | AA | 118 |
| 31/12/2014 | 5.39 | A+ | 3.49 | AA | 148 |
| 31/03/2015 | 5.24 | A+ | 3.62 | AA- | 64 |

*Scoring:*

*-Value weighted average reflects the credit quality of investments according to the size of the deposit*
*-Time weighted average reflects the credit quality of investments according to the maturity of the deposit*
*-AAA = highest credit quality = 1*
*- D = lowest credit quality = 26*
*-Aim = A- or higher credit rating, with a score of 7 or lower, to reflect current investment approach with main focus on security*

**Diweddariad Gwrthbartion**

Cymeradwyodd Senedd Ewrop yr *EU Bank Recovery and Resolution Directive (BRRD)* ar 15 Ebrill, 2014. Rhoddwyd ystyriaeth i'r posibilrwydd y byddai'r gefnogaeth arbennig gan y llywodraeth i ddalwyr bondiau ansicredig uwch y banciau yn debygol o leihau, yn 2014-15 bu i Moody's adolygu Rhagolwg sawl banc yn y DU ac yn yr UE o Sefydlog i Negatif (noder nad yw hyn yr un fath ag adolygiad graddio negatif (*rating review negative*), a bu i S&P roi banciau'r DU a'r Almaen ar *Credit Watch* gyda goblygiadau negatif, wedi i'r gwledydd hyn fabwysiadu trefn *bail-in* y BRRD yn gynnar.

Yn yr un modd, adolygodd S&P ei Ragolygon ar gyfer banciau mawr Canada i negatif yn dilyn cyhoeddiad y llywodraeth am y posibilrwydd o fframwaith polisi *bail-in*.

Cyhoeddodd Banc Lloegr ei agwedd at ddatrysiad banciau, a oedd yn rhoi syniad o sut gellid gweithredu gostyngiad yn atebolrwydd banciau sy'n methu yn ymarferol. Bydd Banc Lloegr yn gweithredu os yw banc, yn ei farn ef, yn methu, neu'n debygol o fethu, ac nid yw'n debygol y bydd datrysiad sector preifat llwyddiannus megis trosfeddiannu neu ddyroddi cyfandaliadau; nid oes angen i fanc fod yn dechnegol fethdaliadol (gyda'i rwymedigaethau'n fwy na'i asedau) cyn i ymyrraeth reoleiddiol ddigwydd, megis *bail-in.*

Effaith gyfunol y BRRD a *Deposit Guarantee Scheme Directive* y DU (DGSD) yw hyrwyddo ernesau unigolion a busnesau bach a chanolig dros ernesau awdurdodau cyhoeddus, corfforaethau mawr a sefydliadau ariannol. Disgwylir i wledydd eraill yr UE, a phob gwlad datblygedig arall fabwysiadu dulliau tebyg yn y pen draw.

Ym mis Rhagfyr, bu i Awdurdod Rheoleiddio Darbodus (PRA) y Banc ymgymryd â phrofion straen ar wyth sefydliad ariannol yn y DU, i asesu eu gwydnwch i sioc dwys yn y farchnad dai ac i gynnydd mawr mewn cyfraddau llog, ac i ymdrin â pheryglon i sefydlogrwydd ariannol y DU. Cafodd *Lloyds Banking Group* a *Royal Bank of Scotland* eu hadnabod fel sefydliadau a basiodd y profion, ond a oedd mewn perygl petai 'dirywiad economaidd sylweddol' yn digwydd. Mae *Lloyds Banking Group* [mae ei fanciau cyfansoddiadol ar restr fenthyg yr Awdurdod] yn cymryd camau i ychwanegu at arian cyfalaf ac nid yw PRA yn gofyn i'r grŵp gyflwyno cynllun cyfalaf diwygiedig. Nid yw RBS ar restr fenthyca'r Awdurdod ar gyfer buddsoddiadau, ond mae wedi diweddaru cynlluniau i gyhoeddi cyfalaf Haen 1 ychwanegol. Bu i *The Co-operative Bank* fethu'r prawf.

Yn ogystal, cyhoeddodd Banc Canolog Ewrop ganlyniadau'r Arolwg Ansawdd Asedau (AQR) a phrofion straen, a oedd yn seiliedig at ddata mis Rhagfyr 2013. Methodd 25 o fanciau Ewropeaidd y prawf, gan fethu â chyrraedd y trothwy cyfalaf gofynnol o gyfanswm o oddeutu €25bn (£20bn) - nid oedd unrhyw un o'r banciau a fethodd ar restr fenthyca'r Awdurdod.

Ym mis Hydref, yn dilyn symudiadau sydyn mewn arwyddion y farchnad a yrrwyd gan ddirwyiad yn y rhagolygon twf rhyngwladol, yn enwedig yn Ardal yr Ewro, bu i Arlingclose gynnig gostyngiad mewn cyfyngiadau cyfnodau buddsoddi ar gyfer

buddsoddiadau banc a chymdeithasau adeiladu ansicredig i atal argyfwng dyrys arall yn Ardal yr Ewro. Cyfnodau buddsoddiadau ansicredig newydd gyda banciau a chymdeithasau adeiladu a ostyngwyd yn flaenorol. Cafodd cyfnodau buddsoddiadau newydd ansicredig gyda rhai sefydliadau'r DU eu gostwng ymhellach i 100 diwrnod ym mis Chwefror 2015.

Mae gwahardd 'bail-outs', cyflwyno 'bail-ins', a'r ffafriaeth a roir i nifer fawr o adneuwyr ar wahân i awdurdodau lleol yn golygu fod y peryglon o wneud adneuon anwarantedig yn cynyddu'n gymharol ag opsiynau buddsoddi eraill. Felly, bu i'r Awdurdod wedi dechrau defnyddio opsiynau buddsoddi gwarantedig fwyfwy neu ddewisiadau arall megis bondiau diogel,  yn ogystal a ernesau banc a chymdeithasau adeiladu anwarantedig. Yn gyffredinol gwnaethpwyd ernesau dros cyfnodau byr er mwyn lleihau'r risg. Mae defnydd opsiynau gwarantedig gan gynnwys buddsoddiadau y tu allan i'r banc a chronfeydd wedi'u cyfuno yn ogystal a bondiau diogel yn debyg i gynyddu er mwyn lleihau'r risg o golled.

**Diweddariad ynglŷn â'n Buddsoddiadau yn Banc Heritable.**

Bellach, mae'r awdurdod wedi adennill 94% o'i fuddsoddiadau ym manc Heritable. Mae'n debygol y bydd dosraniadau pellach a dylid adenill y swm llawn. Mae amseriad dosbarthiadau yn  y dyfodol yn aneglur ac yn dibynnu ar setliad yr achos llys sy'n parhau.
Derbyniwyd rhybudd a bydd taliad difidend ym mis Awst 2015 ond nid yw'r swm yn hysbys eto.

**4. Argymhelliad**

**Gofynnir i'r Pwyllgor Pensiynau derbyn yr adroddiad er gwybodaeth am sut fuddsoddwyd arian parod y Gronfa, ar y cyd ag arian y Cyngor yn 2014/15.**

**ATODIAD**

**Dadansoddiad o'r Sgôr Credyd**

Sgorio:

| Statws Credyd Tymor Hir | Sgôr |
|---|---|
| AAA | 1 |
| AA+ | 2 |
| AA | 3 |
| AA- | 4 |
| A+ | 5 |
| A | 6 |
| A- | 7 |
| BBB+ | 8 |
| BBB | 9 |
| BBB- | 10 |

Mae'r gwerth cyfartalog yn adlewyrchu ansawdd credyd buddsoddiadau yn ôl maint yr ernes. Mae'r amser cyfartalog yn adlewyrchu ansawdd credyd buddsoddiadau yn ôl aeddfedrwydd yr ernes.

Roedd y Cyngor yn anelu at sgôr o 7 neu is, er mwyn adlewyrchu'r flaenoriaeth or-redol am ddiogelwch yr arian a buddsoddir a'r trothwy isaf cyfradd credyd A- i gwrthbartion buddsoddi.

CYFARFOD: **PWYLLGOR PENSIYNAU**

DYDDIAD: **10 TACHWEDD 2015**

TEITL: **RHEOLAETH TRYSORLYS 2015/16 – ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN**

PWRPAS: **Mae Côd Ymarfer CIPFA yn argymell y dylid cynhyrchu adroddiad ar wir weithgarwch Rheolaeth Trysorlys y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol.**

ARGYMHELLIAD: **DERBYN YR ADRODDIAD ER GWYBODAETH**

AWDUR: **DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID**

---

## 1. CEFNDIR

Mae Cod Ymarfer y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ar gyfer Rheoli Trysorlys (Cod TM CIPFA) yn ei gwneud yn ofynnol bod cynghorau yn adrodd ar berfformiad y swyddogaeth rheoli trysorlys o leiaf ddwywaith y flwyddyn (canol y flwyddyn a diwedd y flwyddyn).

Cymeradwywyd Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor ar gyfer 2015/16 gan y Cyngor llawn ar 5 Mawrth 2015, a gellir ei weld ar y we yn https://www.gwynedd.gov.uk/cy/Cyngor/Cynghorwyr-a-phwyllgorau/Pwyllgorau,-cofnodion-ac-agendau/Pwyllgorau,-cofnodion-ac-agendau.aspx?pwyllgor=/2014-15/Cyngor Llawn_Full Council/2015-03-05.

Mae'r Cyngor wedi benthyca a buddsoddi symiau sylweddol o arian ac mae felly'n agored i risgiau ariannol, gan gynnwys colli cronfeydd a fuddsoddwyd ac effaith refeniw cyfraddau llog sy'n newid. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gweithgaredd y trysorlys a'r monitro risg a rheolaeth risg cysylltiedig.

## 2. Y CYD-DESTUN ALLANOL

Ar ddechrau'r flwyddyn, bu i ddigwyddiadau yng ngwlad Groeg wthio data economaidd i'r cysgod. Roedd sylw'r marchnadoedd yn canolbwyntio ar y broblem Roegaidd ddi-ddiwedd ac fe drodd o fod yn helbul i fod yn argyfwng, gan beri risg o orfod gadael yr Ewro. Prin iawn oedd gwleidyddion y wlad a chynrychiolwyr 'Troika' ei chredydwyr - y Comisiwn Ewropeaidd (CE), Banc Canolog Ewrop (BCE) a'r *International Monetary Fund* (IMF) - yn cytuno. Methodd Groeg â thalu ad-daliad wedi'i drefnu i'r IMF ar 30 Mehefin. Nid yw hyn yn ei hun yn ddiffyg nes bod Rheolwr Gyfarwyddwr yr IMF yn ei alw'n ddiffyg. Bu i'r Prif Weinidog Tsipras ddychryn credydwyr Groeg gan alw refferendwm ar 5 Gorffennaf ar gynigion diwygio, a oedd eisoes tu hwnt i ystyriaeth. Rhewodd Banc Canolog Ewrop gymorth hylifedd a ddarparwyd i fanciau Groeg, a bu i reolaethau cyfalaf o fewn y wlad gyfyngu mynediad unigolion a chorfforaethau at arian yn sylweddol.

Ar 12 Gorffennaf, yn dilyn Uwchgynhadledd o'r Undeb Ewropeaidd dros benwythnos, cyhoeddwyd fod telerau *bailout* Groeg wedi'u cytuno am y trydydd tro. Cytunwyd ar fargen, a oedd werth €86 biliwn, dan y telerau y byddai Groeg yn profi cynydd mewn trethi, diwygiadau pensiwn a phreifateiddio; yr union ddiwygiadau yr oedd Tsipras wedi addo gwrthsefyll yn eu herbyn. Ar 27 Awst, ymddiswyddodd Alexis Tsipras o'i swydd fel Prif Weinidog Groeg ar ôl dim ond wyth mis gan alw etholiad brys, i'w gynnal ar 20 Medi. Mae'n debyg mai ceisio cadarnhau grym ei lywodraeth ydoedd, ond mae arolygon barn yng Ngroeg yn awgrymu fod hyn wedi methu, gyda'r blaid ganol-dde *New Democracy* yn ennill cefnogaeth ac yn rhedeg am y gorau gyda *Syriza*. Mae'r ansicrwydd gwleidyddol yn parhau.

Yn ogystal, yn ystod yr haf gwelwyd y sylw yn symud tuag at Tsieina gan i fynegai cyfansawdd Shanghai (sy'n cynrychioli prif farchnad stoc Tsieina), a oedd wedi cynyddu mwy na 50% ers dechrau 2015, ddisgyn 43% mewn llai na thri mis gyda cholled o $3.2 triliwn i fuddsoddwyr yn ôl y son. Digwyddodd hyn oherwydd pryderon am dwf ac ar ôl i reoleiddwyr dynhau gweithgarwch benthyg gorsymiant mewn ymdrech i atal buddsoddwyr rhag benthyg i fuddsoddi, a rhag ymchwyddo'r farchnad stoc. Bu i awdurdodau Tsieineaidd ddwysau eu hymyrraeth ym marchnadoedd gan atal masnachu mewn llawer o stociau er mwyn ceisio cynnal hyder y farchnad. Fe wnaethon nhw synnu marchnadoedd rhyngwladol ym mis Awst wrth i'r *People's Bank of China* newid y ffordd y mae'r yuan yn cael ei osod yn erbyn doler yr UDA a alluogodd dibrisiad mawr o'r arian cyfredol. Bu i hyn ddychryn marchnadoedd Asia, Ewrop a'r UDA gan effeithio ar arian, ecwiti, nwyddau, olew a metel. Ar 24 Awst, bu i stociau Tsieineaidd ddioddef y cwymp undydd mwyaf a adroddwyd erioed, gan wthio marchnadoedd ecwiti i lawr o gwmpas y byd. Cyn pen dim, cafodd y diwrnod hwn ei adnabod fel 'Black Monday' arall.

**Economi'r DU:** Mae'r economi wedi parhau'n wydn dros y chwech mis diwethaf. Er i dwf economaidd arafu yn Ch1 2015 i 0.4%, roedd twf blwyddyn/blwyddyn hyd at Mawrth 2015 yn 2.9%, sy'n weddol iach. Daeth twf GDP yn ôl at ei hun yn Ch2 2015, a chadarnhawyd hwnnw yn 0.7%, gyda twf blwyddyn/blwyddyn yn arafu mymryn, gan leihau i 2.6%. Erbyn hyn, mae GDP wedi cynyddu am ddeg chwarter dilynol, gan dorri patrwm o dwf araf a thwf afreolaidd ers 2009. Ym mis Ebrill, roedd cyfradd flynyddol chwyddiant prisiau defnyddwyr yn negatif am gyfnod, gan syrthio i 0.1%, cyn dychwelyd i 0.1%, 0.0% ac 0.1% ym mis Mai, Mehefin a Gorffennaf yn eu tro. Yn Adroddiad Chwyddiant Chwarterol mis Awst, bu i Fanc Lloegr rhagweld y byddai twf GDP yn parhau o gwmpas ei gyfradd gyfartalog ers 2013. Ni fu llawer o newid yn rhagamcanion chwyddiant Banc Lloegr ers adroddiad mis Mai; roedd disgwyl i chwyddiant gynyddu'n raddol i oddeutu 2% dros yr 18 mis nesaf ac yna parhau ar hynny yn y dyfodol agos. Bu i welliant pellach yn y farchnad lafur achosi i gyfradd ddiweithdra'r ILO ddisgyn i 5.5% yn ystod y tri mis yn arwain at mis Ebrill, er i hyn ddringo'n ôl i 5.6% yn y misoedd canlynol. Yn adroddiad mis Awst, bu i enillion cyfartalog (nad oedd yn cynnwys enillion bonws) gynyddu 2.8% blwyddyn/blwyddyn ar gyfer y tri mis hyd fis Mehefin.

Gwelwyd newidiadau mawr i'r dirwedd wleidyddol gyda chanlyniad yr etholiad cyffredin, a welodd frwydr dros ddulliau'r pleidiau o ddelio â chanlyniadau'r diffyg strwythurol a chyflymder ei ddiddymiad. Rhoddodd hyn y brif fater o berthynas y DU gyda'r UE wrth galon gwleidyddiaeth y dyfodol.

Arafodd economi’r UDA i 0.6% yn Ch1 2015 oherwydd tywydd drwg, toriadau gwariant cwmnïau ynni ac effeithiau doler gryf. Fodd bynnag, dangosodd GDP Ch2 welliant mawr, gan iddo gyrraedd 3.7% diwygiedig (blynyddol). I raddau helaeth, roedd hyn oherwydd gwelliant eang mewn buddsoddiad corfforaethol ynghyd â pherfformiad cryfach gwariant ac allforio cwsmeriaid a'r llywodraeth. Gan fod penderfyniad y Ffed ar gyfradd llog yr UDA yn ddibynnol ar ddata, mae’r GDP yn amlwg yn gefnogol. Fodd bynnag, nid yw mor syml â hynny, ac mae’r Ffed yn awyddus i weld chwyddiant yn cynyddu, ynghyd â’i dwf economaidd a’i farchnadoedd llafur. Nid oedd marchnadoedd yn gallu penderfynu ar ragweld cynnydd yng nghyfradd ym mis Medi neu ym mis Rhagfyr.

**Ymateb y Farchnad:** Yn gychwynnol, ymatebodd y marchnadoedd ecwiti’n bositif i'r cynnydd yn y disgwyliadau ar amodau economaidd rhyngwladol, ond bu iddynt gael eu niweidio oherwydd methiant i negodi â chredydwyr gwlad Groeg. Bu i Tsieina achosi helbul rhyngwladol yn y farchnad stoc ym mis Awst, gyda’r FTSE 100 yn disgyn oddeutu 8% dros nos ar ‘Black Monday’. Nid yw indecsau wedi cyrraedd eu lefelau blaenorol, ond gwelwyd ychydig o welliant. Roedd marchnadoedd bond y llywodraeth yn eithaf cyfnewidiol gydag enillion yn cynyddu (h.y. prisiau'n gostwng) yn gychwynnol gan fod peryglon dadchwyddiant yn ymddangos i ostegu. Yna, bu i enillion ostwng yn sgil canlyniad etholiad cyffredin y DU ac wrth ailwerthuso ffactorau dadchwyddiant, cyn iddynt gynyddu unwaith eto. Gwelwyd enillion yn gostwng eto drwy fis Awst o ganlyniad i bryderon am Tsieina. Cafodd y farchnadoedd bondiau eu hystumio gan faint rhaglen QE Banc Canolog Ewrop, oedd mor fawr ei bod wedi achosi rhewiant yn y marchnadoedd hynny oedd eu hangen arni i gael y bondiau. Yn nodedig, digwyddodd hyn i fondiau llywodraeth yr Almaen (bunds) ble roedd gwerth enillion yn negatif.

**Gweithgarwch Buddsoddi**

Mae’r Cyngor yn dal buddsoddiadau sylweddol, sy’n cynrychioli incwm a dderbynnir cyn gwariant, ynghyd â’r balansau a’r cronfeydd wrth gefn.

Mae’r Arweiniad ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol yng Nghymru yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch a hylifedd a nod y Cyngor yw cyflawni enillion sy’n gymesur â’r egwyddorion hyn.

Mae’r trawsddodiad y cyfarwyddebau Undeb Ewropeaidd i ddeddfwriaeth y DU yn rhoi baich achub banciau'r UE sydd yn methu ar fuddsoddwyr llywodraeth leol ansicredig trwy’r ‘bail-in’ dichonol ar adneuon banc ansicredig.

Oherwydd y risg cynyddol a pharhad dychweliadau isel ar fuddsoddiadau banc ansicredig tymor byr, mae’r Cyngor yn anelu i amryfalu i ddosbarthiadau asedau mwy diogel a/neu gyda dychweliad uwch yn ystod 2015/16. Yn y gorffennol buddsoddwyd mwyafrif arian dros ben y Cyngor mewn adneuon banc, tystysgrifau adneuon a chronfeydd marchnad arian ansicredig a thymor byr. Bydd arallgyfeirio i ernesau gyda chyfochrog a buddsoddiadau gyda sefydliadau nad ydynt yn destun ‘bail-in’ yn datblygu yn y dyfodol.

## Gweithgareddau Buddsoddi yn 2015/16

| Buddsoddiadau | Balans ar 01/04/15 £'000 | Buddsoddiadau a wnaed £'000 | Buddsoddiadau a ad-dalwyd £'000 | Balans ar 31/08/15 £'000 | Cyfradd cyfartaledd % |
|---|---|---|---|---|---|
| Buddsoddiadau ansicredig gyda sefydliadau ariannol wedi eu raddio A- neu uwch | | | | | |
| - cyfrifon alw | 18,420 | 56,470 | (69,765) | 5,125 | 0.42 |
| - adneuon a CDs | 37,002 | 42,000 | (46,002) | 33,000 | 0.70 |
| Buddsoddidau sicr gyda sefydliadau ariannol<br>- Bondiau goryched | 1,121 | 1,102 | 0 | 2,223 | 1.75 |
| - Bondiau corfforaethol gan cwmni wedi eu raddio A- neu uwch | 0 | 2,018 | 0 | 2,018 | 0.87 |
| Buddsoddiadau mewn Cronfeydd wedi eu cyfuno | 0 | 81,945 | (69,945) | 12,000 | 0.46 |
| **CYFANSWM BUDDSODDIADAU** | 56,543 | 183,535 | (185,712) | 54,366 | |
| Lleihad mewn Buddsoddiadau | | | | (2,177) | |

Diogelwch y cyfalaf sy'n parhau'n brif amcan y Cyngor wrth fuddsoddi. Cynhaliwyd hyn drwy ddilyn polisi gwrthbartïon y Cyngor, sydd wedi'i nodi yn y Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys am 2015/16.

Aseswyd ansawdd credyd y gwrthbartion a'i fonitro drwy gyfeirio at y statws credyd (isafswm y statws credyd tymor hir ar gyfer gwrthbartion a benwyd gan y Cyngor oedd A- ar draws asiantaethau statws credyd Fitch, S&P a Moody's); prisiau cyfnewid diffygion credyd, datganiadau ariannol, gwybodaeth ar gymorth posib gan y llywodraeth ac adroddiadau yn y wasg ariannol.

Oherwydd y risg gynyddol a pharhad dychweliadau isel o fuddsoddiadau banc ansicredig, mae'r Cyngor wedi arallgyfeirio i ddosbarthiadau asedau mwy sicr a gyda dychweliadau gwell fel bondiau gorchuddiedig sydd yn cael eu sicrhau gan asedau'r sefydliadau ariannol.

### Risg Credyd

Crynhoir isod ansawdd credyd y gwrthbartïon fel y'u mesurwyd trwy sgôr credyd:

| Dyddiad | Cyfartaledd Gwerth – Sgôr Risg Credyd | Cyfartaledd Gwerth – Statws Credyd | Cyfartaledd Amser – Sgôr Risg Credyd | Cyfartaledd Amser – Statws Credyd |
|---|---|---|---|---|
| **31/03/15** | 5.24 | A+ | 3.62 | AA- |
| **30/06/15** | 4.94 | A+ | 2.95 | AA |

*<u>Sgorio:</u>*
*- Mae'r gwerth cyfartalog yn adlewyrchu ansawdd credyd buddsoddiadau yn ôl maint yr ernes.*
*- Mae'r amser cyfartalog yn adlewyrchu ansawdd credyd buddsoddiadau yn ôl aeddfedrwydd yr ernes.*
*-AAA = ansawdd credyd uchaf = 1*
*- D = ansawdd credyd isaf = 26*
*Y nod = A- neu statws credyd uwch, gyda sgôr o 7 neu'n is, i adlewyrchu'r dull buddsoddi presennol gyda'r prif ffocws ar ddiogelwch.*

Roedd buddsoddiadau gyda banciau a chymdeithasau adeiladu yn cynnwys cyfrifon ar alw, adneuon cyfnod cyfradd sefydlog a thystysgrifau adneuon, cronfeydd marchnad wedi'u cyfuno, bondiau gorchuddiedig a bond corfforaethol.

**Diweddariad Gwrthbartïon**

Yn ystod y chwarter diwethaf, mae'r tair asiantaeth statysau credyd rhan fwyaf o sefydliadau ariannol wedi adolygu eu statysau i adlewyrchu colli cefnogaeth y llywodraeth, a'r potensial i golled amrywiol oherwydd methiant i ad-dalu wedi i nifer o wledydd gael trefniadau *'bail-in'* newydd. Er gwaethaf y lleihad mewn cefnogaeth llywodraethol, bu i sawl sefydliad gael eu huwchraddio oherwydd gwelliant yn eu cryfder gwaelodol ac asesiad yn dangos fod lefel diffygion o ganlyniad i fethu â thalu yn isel.

Arolygodd Fitch statysau credyd sawl sefydliad ym mis Mai. Bu i'r rhan fwyaf o fanciau'r DU weld newid yn eu statws cefnogaeth o 1 (oedd yn dynodi tebygolrwydd uchel iawn o gefnogaeth) i 5 (oedd yn dynodi na ellir dibynnu ar gefnogaeth allanol). Canlyniad hyn oedd gostyngiad yn statws hir-dymor Royal Bank of Scotland (RBS) i BBB+ o A, *Deutsche Bank* i A o A+, *Bank Nederlandse Gemeeten* i AA+ o AAA ac ING i A o A+. Fodd bynnag, derbyniodd *JP Morgan Chase* a *Lloyds Banking Group* uwchraddiadau un-pwynt.

Caeodd Moody's ei arolwg ym mis Mehefin a bu iddo uwchraddio statysau hir-dymor *Close Brothers*, *Standard Chartered Bank*, *ING Bank*, *Goldman Sachs International*, *HSBC*, *RBS*, *Coventry Building Society*, *Leeds Building Society*, *Nationwide Building Society*, *Svenska Handelsbanken* a *Landesbank Hessen-Thueringen*.

Bu i S&P gynnal arolwg o fanciau'r DU a'r Almaen ym mis Mehefin, gan ostwng statws hir-dymor Barclays i A- o A, RBS i BBB+ o A- a *Deutsche Bank* i BBB+ o A. O ganlyniad i hyn, mae'r Awdurdod wedi penderfynu gwahardd *Deutsche Bank* fel gwrthran i fuddsoddiadau newydd heb eu gwarantu. Newidiodd S&P rhagolwg y DU yn gyfangwbl i negatif o sefydlog, gan nodi pryderon ynglŷn â refferendwm wedi'i gynllunio ar aelodaeth yr UE a'i effaith ar yr economi.

Cyhoeddodd National Australia Bank (NAB) ei gynlluniau i ddihatru Clydesdale Bank, ei is-fanc yn y DU. Mae NAB eisiau rhestru Clydesdale ar Farchnad Stoc Llundain, a throsglwyddo perchnogaeth i gyfranddalwyr cyfredol NAB. Rhoddodd Fitch statysau hir-dymor a byr-dymor y banc ar *rating watch negative*, ond mae disgwyl i'r asiantaeth ddatrys hyn unwaith bydd y gwerthiant wedi ei gwblhau. Mae S&P hefyd wedi rhoi statws hir-dymor Clydesdale Bank ar *credit watch negative* yn dilyn y cyhoeddiad.

**Cyllidebu Incwm ac Alldro**

Roedd y balansau arian cyfartalog yn ystod y cyfnod yn £57.3m. Cadwyd Cyfradd Banc y DU ar 0.5% ers mis Mawrth 2009. Arhosodd cyfraddau marchnad arian byr dymor ar lefelau gweddol isel. Gwnaed adneuon newydd ar gyfradd cyfartalog o 0.70%. Cynhyrchodd buddsoddiadau mewn Cronfeydd Marchnad Arian gyfraddau cyfartalog o 0.46%.

Amcangyfrifwyd byddai incwm buddsoddi'r Cyngor yng nghyllideb eleni yn £0.4m. Rydym yn rhagweld alldro buddsoddi o £0.53m ar gyfer y flwyddyn gyfan.

**Diweddariad ar Fuddsoddiad Banciau Gwlad yr Iâ**
Bellach, mae'r Cyngor wedi adennill 98% o'i fuddsoddiad ym manc Heritable. Erbyn hyn £80,376 yw'r swm heb ei dalu. Mae'n debygol y bydd dosraniad pellach yn cael eu derbyn er nad yw'r gweinyddwyr wedi gwneud amcangyfrif swyddogol o'r adenillion terfynol eto.

**Dangosyddion Rheolaeth Trysorlys**

Mae'r Cyngor yn mesur ac yn rheoli pa mor agored ydyw i risgiau rheolaeth trysorlys gan ddefnyddio'r dangosyddion a ganlyn.

**Risg Cyfraddau Llog:** Nod y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw'r Cywngor i risg cyfraddau llog. Bydd y terfynau uchaf ar risgiau cyfraddau llog sefydlog a chyfnewidiol, a fynegir fel cyfran o'r prif swm net a fenthyciwyd, fel a ganlyn:

| | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 |
|---|---|---|---|
| Y terfyn uchaf ar gyfer cyfraddau llog sefydlog | 100% | 100% | 100% |
| Gwir | 100% | | |
| Y terfyn uchaf ar gyfer cyfraddau llog cyfnewidiol | 50% | 50% | 50% |
| Gwir | 0% | | |

**Prif Symiau a Fuddsoddir am Gyfnodau sy'n Hwy na 364 diwrnod:** Pwrpas y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw'r Cyngor i'r risg o fynd i golledion trwy geisio ad-daliadau buan ar ei fuddsoddiadau. Bydd y terfynau ar gyfanswm y prif swm a fuddsoddir i aeddfedu'n derfynol tu hwnt i ddiwedd y cyfnod fel a ganlyn:

| | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 |
|---|---|---|---|
| Y terfyn ar y prif swm a fuddsoddwyd tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn | £40m | £30m | £25m |
| Gwir | £3.22m | £2.22m | £2.22m |

**Diogelwch:** Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol i ddangos ei sensitifrwydd i risg credyd trwy fonitro sgôr credyd cyfartalog yn ôl cyfran gwerth ei bortffolio buddsoddi. Caiff hyn ei gyfrifo trwy roi sgôr i bob buddsoddiad (AAA=1, AA+=2, ac ati) a chymryd y cyfartaledd rhifyddol, gan bwyso'r cyfartaledd yn ôl maint pob buddsoddiad.

| | Target | Actual |
|---|---|---|
| Sgor credyd cyfartal y portffolio | 6.0 | 4.06 |

**Hyfforddiant Buddsoddi**
Yn ystod y cyfnod, mynychodd swyddogion hyfforddiant buddsoddi gydag Arlingclose a CIPFA oedd yn berthnasol i'w swyddi.

**Rhagolygon Ch3 a Ch4 2015/16**

Mae Arlingclose yn parhau i ddisgwyl gweld y cynnydd cyntaf yng Nghyfraddau'r Banc (cyfradd sylfaenol) yn ystod ail chwarter 2016. Bydd cyflymder cynnydd yn y gyfradd llog yn raddol, a'r graddau o gynnydd yn gyfyngedig. Mae lefel addas y Cyfraddau Banc ar gyfer economi'r DU yn dilyn yr argyfwng yn debygol o fod yn sylweddol is na'r norm blaenorol. Awgrymwn fod hyn rhwng 2.0% a 3.0%. Mae hefyd momentwm sylweddol yn economi'r UDA i'r Gronfa Ffederal gynyddu cyfraddau llog yn 2015, er y gallai peryglon yn ymwneud â phroblemau Tsieina oedi hyn.

Mae'n debyg y bydd yr amgylchedd rhyngwladol gwan a'r rhagolygon chwyddiant isel o ganlyniad i hynny yn lleffetheirio cyfraddau llog hir-dymor. Rydym yn rhagweld y bydd enillion gilt yn dilyn llwybr am i fyny yn y tymor canolig, oherwydd pryderon parhaus am Ardal yr Ewro, a digwyddiadau daear-wleidyddol eraill, gan ddibynnu ar yr awch i gymryd risg, tra bod disgwyliadau chwyddiant yn parhau'n isel. Mae'n debyg y bydd yr ansicrwydd yn ymwneud â phryd y bydd cynnydd yng nghyfraddau llog y DU a'r UDA, a'r helbul ym marchnad stoc Tsieina, yn ysgogi enillion gilt anwadal yn y byr-dymor.

| | Sep-15 | Dec-15 | Mar-16 | Jun-16 | Sep-16 | Dec-16 | Mar-17 | Jun-17 | Sep-17 | Dec-17 | Mar-18 | Jun-18 | Sep-18 | Average |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Official Bank Rate | | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | | | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.32 |
| Arlingclose Central Case | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.75 | 0.75 | 1.00 | 1.00 | 1.25 | 1.25 | 1.50 | 1.50 | 1.75 | 1.75 | 1.08 |
| Downside risk | | | | -0.25 | -0.25 | -0.50 | -0.50 | -0.75 | -0.75 | -1.00 | -1.00 | -1.00 | -1.00 | -0.70 |

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| **DYDDIAD** | **10 TACHWEDD 2015** |
| **PWRPAS** | **Hysbysu'r Pwyllgor Pensiynau am y trefniadau hyfforddi ar gyfer aelodau'r Pwyllgor** |
| **TEITL** | **SGILIAU A GWYBODAETH** |
| **AWDUR** | **CAROLINE ROBERTS, RHEOLWR BUDDSODDI** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r Gronfa Bensiwn wedi mabwysiadu'r Datganiad Sgiliau a Gwybodaeth fel a ganlyn:

Mae'r sefydliad hwn yn adnabod pwysigrwydd sicrhau bod gan yr holl staff a'r aelodau sy'n gyfrifol am weinyddiaeth gyllidol ac am wneud penderfyniadau o ran y cynllun pensiwn yr holl wybodaeth a'r sgiliau i ymgymryd â'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau a ddyrannwyd iddynt.

Felly, bydd y sefydliad yn ceisio defnyddio unigolion gyda'r gallu a'r profiad a bydd y sefydliad yn darparu hyfforddiant ar gyfer staff ac aelodau'r cyrff pensiynau sy'n gwneud penderfyniadau er mwyn eu galluogi hwy i dderbyn a chynnal lefel briodol o arbenigedd, gwybodaeth a sgiliau.

1.2 Mae'r polisi Sgiliau a Gwybodaeth yn perthyn i aelodau'r Bwrdd Pensiynau hefyd.

## 2. HYFFORDDIANT CYFREDOL

**2.1** Yn unol â'r trefniadau hyfforddi presennol, mae'n ofynnol i holl aelodau'r Pwyllgor Pensiynau fynychu cwrs tri diwrnod am Hanfodion Hyfforddiant Ymddiriedolwyr ac wedyn byddant yn derbyn tystysgrif hyfforddiant '*LGPS Fundamentals'*. Mae aelodau'r Bwrdd Pensiwn yn mynychu'r sesiynau yma ar hyn o bryd.

**2.2** O bryd i'w gilydd, anfonir aelodau ar gyrsiau gloywi a byddant yn mynychu cynadleddau priodol yn seiliedig ar system rota. Yn ogystal, mae llawer o'r adroddiadau i'r Panel Buddsoddi yn cyflwyno gwybodaeth newydd i swyddogion ac aelodau etholedig ac felly, maent yn cyfrannu tuag at eu gwybodaeth am faterion buddsoddi.

## 3. HYFFORDDIANT Y DYFODOL

**3.1** Y cam nesaf fydd ymgymryd ag asesiad anghenion hyfforddiant. Bwriedir seilio hyn ar gwblhau holiadur hunanasesiad a dosbarthir i aelodau'r Pwyllgor Pensiynau a'r Bwrdd Pensiynau ym mis Ionawr 2016 yn dilyn y Cwrs Hanfodion Hyfforddiant Ymddiriedolwyr.

**3.2** Defnyddir yr wybodaeth a gesglir er mwyn trefnu unrhyw hyfforddiant angenrheidiol fel y nodwyd yn yr holiaduron. Gall hyfforddiant o'r fath gynnwys hyfforddiant mewnol mewn cyfarfodydd presennol neu mewn sesiynau penodol ychwanegol a chyrsiau allanol fel y bo'n briodol. Cynhelir sesiynau hyfforddiant ar y cyd ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Pensiynau a'r Bwrdd Pensiwn fel yn berthnasol.

## 4. CASGLIAD

**4.1** Gofynnir i'r aelodau nodi'r polisi hyfforddiant a'r gofyn i gwblhau'r holiadur er mwyn darparu hyfforddiant a sicrhau cydymffurfiad gyda'r Polisi Gwybodaeth a Sgiliau.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Pensiynau** |
| **DYDDIAD** | **10 Tachwedd 2015** |
| **TEITL** | **Cynnig i weithredu system delweddu dogfen annatod gyda Altair.** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | **I geisio derbyn cymeradwyaeth y Pwyllgor i ariannu'r pryniant cychwynnol o Altair Image a chyllideb ar gyfer y ffioedd trwyddedu blynyddol** |
| **AWDUR** | **Gareth Jones – Rheolwr Pensiynau** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Cymeradwyo'r cyllid ychwanegol sydd ei angen ar gyfer gweithredu a rhedeg 'Altair Image'.** |

**1. Cefndir**

1.1 Mae'n ofynnol i'r Uned Bensiynau gadw cofnodion unigol ar gyfer pob aelod presennol a blaenorol o'r cynllun. Fe drosglwyddwyd ffeiliau papur i micro-lun yn y 1990au fel rhan o'r hen Gyngor Sir Gwynedd yn sefydlu uned arbenigol yn y maes ac er mwyn arbed yr angen cynyddol am le storio yn y swyddfa.

1.2 Ers hynny mae delweddu electronic wedi cymryd drosodd gan ddefnyddio 'Scanfile', system sylfaenol iawn sydd ddim yn integredig. Cyflwynwyd y system fel mesur dros dro hyd nes cyflwyno'r system rheoli dogfennau EDRMS corfforaethol. Mae Scanfile bellach wedi bod mewn defnydd, mewn un ffordd neu'r llall ers dros wyth mlynedd.

1.3 O drafodaethau diweddar gydag Unedau TG a Gwybodaeth y Cyngor mae wedi dod yn amlwg na fydd EDRMS yn cyflawni gofynion llawn yr Uned Bensiynau. Yr argymhelliad oedd bod yr adran yn ystyried symud i 'Altair Image' gan Heywood, system gwbl integredig gyda system llif gwaith cysylltiedig.

1.4 Mae Scanfile fel mae'n sefyll ar hyn o bryd ddim ond yn gallu sganio ac nid yw wedi integreiddio gyda naill ai'r brif Altair nac systemau llif gwaith yr adran.

1.5 Tynnodd Microsoft cytundeb cefnogaeth i Weinyddwyr Windows 2003 o Orffennaf 2015. Mae 'Scanfile' yn rhedeg ar Weinyddwr Windows 2003.

**2. 'Altair Image' - Trosolwg**

2.1 Mae Altair Image yn system rheoli dogfennau integredig a ddatblygwyd i fynd i'r afael a storio dogfennau a gofynion adfer swyddfa gweinyddu pensiynau modern. Bydd yn: -

- gwella effeithlonrwydd drwy leihau'r amser a gymerir i adfer dogfennau o system arall nad yw'n cael ei mynegeio ar hyn o bryd.
- gwella diogelwch dogfennau
- galluogi mynediad ar-lein i bob dogfen ar gyfer aelod unigol mewn modd strwythuredig, yn gysylltiedig â llif gwaith
- caniatáu storio dogfennau hierarchic i storio dogfennau sydd ddim yn gysylltiedig ag aelodau, megis erthyglau pensiwn a phapurau pwyllgor Pensiynau, sydd yn torri i lawr ar yr angen am le storio.
- Hintegreiddio'n llawn gyda'r system gweinyddu Pensiynau craidd Altair a modiwlau eraill Altair gan gynnwys Llif Gwaith, Cynhyrchu Dogfennau a

Hunanwasanaeth Aelodau sydd yn cael ei rhedeg ar hyn o bryd gan Gronfa Bensiwn Gwynedd.

- Caniatáu mynediad i holl ddogfennau sy'n gysylltiedig â'r aelod yn syth o gofnodion yr aelod gan gynnwys dogfennau delweddu sydd wedi cael eu sganio i mewn a dogfennau sydd wedi eu cynhyrchu trwy'r system
- Arddangos yn awtomatig rhestr o ddogfennau yn ymwneud a'r weithdrefn sy'n cael ei brosesu ar gyfer yr aelod
- Cyfleusterau i symud dogfennau sydd wedi eu cynhyrchu gan ryngwyneb COLD (Allbwn Cyfrifiadur i Laser Disc) i gyfryngau optegol yn hytrach na argraffu ac yna sganio a dinistrio dogfennau fel y trefniadau ar hyn o bryd.

**3. Costau meddalwedd**

3.1 Yn unol ag aelodaeth y gronfa o dros 35,000 (aelodaeth gyfan ar hyn o bryd yn fwy na 38,000) mae'r prisiau canlynol wedi cael eu dyfynnu ar gyfer gweithredu a rhedeg Altair Image:

| | **Trwydded Gychwynnol** | **Gweithredu ac Ymgynghori (T&M)** | **Ffi Cymorth a Chynnal a Chadw Blynyddol** |
|---|---|---|---|
| Ffioedd | £58,525 | £20,560 | £11,705 |
| Taladwy | Yn daladwy wrth lofnodi'r contract | Yn daladwy mewn ôl-ddyledion wrth iddynt godi | Yn daladwy wrth dderbyn y feddalwedd ac yn amodol ar fynegeio blynyddol |

**<u>Nodiadau Ychwanegol</u>**

- Mae'r costau uchod yn tybio tymor contract o bum mlynedd ac maent yn destun TAW (gall Cyngor Gwynedd yn gallu adennill TAW)

- Byddai unrhyw gostau teithio a threuliau yn ychwanegol at y costau a ddyfynnwyd (ran gweithredu yn y safle os oes angen)

- Nid yw'r costau hyn yn cynnwys trosi delweddau a gynhaliwyd ar y system Scanfile – Buasai meddalwedd pwrpasol yn angenrheidiol ar gyfer gwneud hyn (Bydd adroddiad ar hyn yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn y dyfodol)

**4. Caledwedd Sganio**

4.1 Ar gyfer y system delweddu newydd i weithio i'w llawn botensial, bydd gofyn am Sganiwr newydd. Mae Heywood wedi dyfynnu £5,673.48 ar gyfer Fujitsu model 6670 a £3,032.00 ar gyfer gwaith cynnal a chadw am dair blynedd (pob ffigwr yn ogystal â THAW).

4.2 Yn y cyfamser mae adran TG Cyngor Gwynedd yn chwilio am bris gwell ar gyfer model gyda nodweddion tebyg.

**5. Argymhelliad**

5.1 Gofynnir i'r Pwyllgor gymeradwyo'r cyllid ar gyfer gosod, cynnal a thrwyddedu blynyddol o 'Altair Image' a phrynu sganiwr priodol yn unol â'r ffeithiau a amlinellir ym mhwynt '4'.

# Eitem 10

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Pensiynau** |
| **DYDDIAD** | **10 Tachwedd 2015** |
| **TEITL** | **Disgresiynau Awdurdod Gweinyddu** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | **I adolygu a newid Polisiau yng nghyd-destun y Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2014** |
| **AWDUR** | **Gareth Jones – Rheolwr Pensiynau** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Cytuno neu ddiwygio polisïau'r awdurdod gweinyddu yn ôl dewis y Pwyllgor** |

1. **<u>Cefndir</u>**

1.1 Fe wnaeth cyflwyno'r Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 a Rheoliadau (Darpariaethau Trosiannol, Diogelu a Gwelliant) Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2014 hi'n angenrheidiol i'r Cyngor, fel Awdurdod Gweinyddu, greu ac adolygu polisïau ar gyfer y disgresiynau yn gynhwysol ynddynt.

2. **<u>Disgresiynau</u>**

2.1 Mae Atodiad 1 yn rhestru'r disgresiynau ar gael o dan prif reoliadau'r cynllun, tra bod Atodiad 2 yn rhestu'r rhai ar gael o dan ddarpariaethau'r rheoliadau trosiannol a diogelu.

2.2 Mae nifer o'r digresiynau a restrir yn rhan o weinyddiaeth y cynllun cyn 2014, fodd bynnag gyda chyflwyno'r trefniant 'CARE' ceir gyfle adolygu a diweddaru'r ddau set a'u cyflwyno i'r Pwyllgor gytuno arnynt.

2.3 Er hwylustod ac eglurder i'r dyfodol mae'r cynnigion, fel e'u cyflwynir, yn cyfuno'r disgresiynau presennol gyda'r rhai wedi eu cynnwys yn y deddfwriaeth newydd.

3. **<u>ARGYMHELLIAD:</u>**

3.1 Gofynnir i aelodau gytuno neu ddiwygio'r cynnigion yn ol eu doethineb.

**Atodiad 1**

**POLISIAU GWEINYDDU CRONFA BENDIWN GWYNEDD**

**Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013**

| Rheol | Polisi Arfaethedig |
|---|---|
| **Rh. 4 (2) (b):**<br><br>Cytuno i gytundeb mynediad gydag Ymddiriedolaeth Gofal neu awdurdod cyflogi Cynllun GIG | Pob cais i'w ystyried yn ôl ei haeddiant unigol |
| **Rh. 5 (5) & Atod. 2, Rhan 3, Para 1:**<br><br>Os i gytuno i gytundeb mynediad gyda chorff yn gwneud cais i fod yn gorff mynediad. | Pob cais i'w ystyried yn ôl ei haeddiant unigol, yn seiliedig ar y lefel risg a gwarant. |
| **Atod. 2, Rhan 3, Para 9 (d):**<br><br>Os i derfynu cytundeb mynediad trosglwyddai o dan yr amgylchiadau lle mae:<br><br>• Methdaliad, terfyniad neu ddiddymiad y corff.<br>• Pe bae'r corff yn torri ei rhwymedigaethau o dan y cytundeb mynediad.<br>• Methiant ar ran y corff i dalu drosodd unrhyw symiau dyledus i'r Gronfa o fewn amser rhesymol o dderbyn cais i wneud hynny. | Bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn ymarfer ei ddisgresiwn ac yn terfynu'r cytundeb mynediad pe godir yr amgylchiadau hyn. |
| **Atod. 2, Rhan 3, Para. 12 (a):**<br><br>Diffinio beth a olygir gyda 'yn gyflogedig mewn cysylltiad â'. | Diffinnir hyn fel **DIM OND** gweithwyr yn gyflogedig i'r corff yn trosglwyddo ac a gyflogir yn y gwaith o ddarparu'r gwasanaeth hynny ac sydd wedi eu rhestru yn y cytundeb mynediad. |
| **Rh. 16 (1):**<br><br>Os i wrthod cais i dalu CPY/CPYRhC dros gyfnod o amser lle mae'n anymarferol caniatáu cais o'r fath (e.e. lle mae'r swm a delir mor fychan lle ellir ei dalu mewn un swm) | Peidio gwrthod ceisiadau ond mynnu bod symiau o £50 neu lai yn daladwy mewn un taliad. |
| **Rh. 16 (10):**<br><br>Os i ymofyn adroddiad meddygol boddhaol cyn cytuno i gais i dalu CPY/CPYRhC. | Ni fydd angen adroddiad meddygol boddhaol lle mae'r CPY/CPYRhC ar gyfer ail sefydlu gwyliau di-dâl, neu drwy dalu mewn un taliad.<br><br>Bydd y Gronfa angen holiadur meddygol wedi ei harwyddo gan MT'r aelod er mwyn prynu pensiwn ychwanegol CPY/CPYRhC drwy gyfraniadau misol dros gyfnod 12 mis neu hwy. |

| | |
|---|---|
| **Rh. 17 (12):**<br><br>Penderfynu pwy y telir unrhyw arian CGY/CGYRhC (yn cynnwys arian yswiriant bywyd) ar farwolaeth yr aelod. | Mae'r awdurdod gweinyddu yn penderfynu talu unrhyw arian CGY/CGYRhC yn unol â'r cyfarwyddiadau a dderbyniwyd drwy'r 'Ffurflen Datgan Dymuniad Grant Marwolaeth'. Lle bydd amheuaeth ynglŷn â dilysrwydd dymuniad yr aelod ymadawedig; lle bydd sialens i'r dymuniad; neu ystyrier y dymuniad yn afresymol, rhyddheir y grant marwolaeth i Ysgutorion yr Ystâd. |
| **Rh. 22 (3) (c):**<br><br>Gellir cynnal cyfrif pensiwn mewn ffurf a ystyrir yn briodol. | Cynnal y cyfrif pensiwn yn unol â rheoliadau'r CPLlL. |
| **Rh. 30 (8):**<br><br>Dewis hepgor gostyngiadau actiwaraidd, yn gyfan neu'n rhannol, ar fuddion a delir ar ymddeoliad hyblyg. | Gall yr Awdurdod Gweinyddu ddefnyddio'i ddisgresiwn i benderfynu peidio â gweithredu'r gostyngiad, yn gyfan neu'n rhannol os yw'r cyflogwr wedi peidio â bod. Dim ond os oes achos busnes cadarn i gyfiawnhau'r gost y defnyddir y disgresiwn hwn. |
| **Rh. 30 (8):**<br><br>Dewis hepgor gostyngiadau actiwaraidd, yn gyfan neu'n rhannol, ar fuddion bydd yr aelod yn dewis eu derbyn yn wirfoddol cyn oed pensiwn arferol. | Gall yr Awdurdod Gweinyddu ddefnyddio'i ddisgresiwn i benderfynu peidio â gweithredu'r gostyngiad, yn gyfan neu'n rhannol os yw'r cyflogwr wedi peidio â bod. Dim ond os oes achos busnes cadarn i gyfiawnhau'r gost y defnyddir y disgresiwn hwn. |
| **Rh. 68 (2):**<br><br>Penderfynu bod cyflogwyr yn talu unrhyw gostau straen ar y Gronfa o flaen llaw, lle telir buddion o dan Rheol 30(6) o CPLlL 2013 (ymddeoliad hyblyg), Rheol 30(7) (diswyddo / effeithlonrwydd busnes), neu wrth hepgor gostyngiad actiwaraidd (yn gyfan neu rannol) o dan Rheol 30(8) a fyddai'n weithredol ar fuddion o ganlyniad i gais gwirfoddol aelod cyn oed pensiwn arferol neu ar ymddeoliad hyblyg. | Mae'r awdurdod gweinyddu yn penderfynu bod rhaid i gyflogwyr dalu costau straen a ddaw o ymddeoliadau cynnar yn llawn, a hynny o fewn cyfnod ddim hwy na phum mlynedd, ond yn cadw'r hawl i fynnu'r taliad yn syth lle mae'n canfod bod risg i'r cyflogwr fod yn debygol o ddarfod ei aelodaeth o'r Gronfa, neu os ystyrir nifer o aelodau gweithredol yn weddill fod yn rhy fychan i gyfiawnhau talu dros gyfnod estynedig. |
| **Rh. 32 (7):**<br><br>Penderfynu os am ganiatáu ymestyn y terfan amser o fewn pryd y mae rhaid i aelod roi rhybydd o'i ddewis i dderbyn buddion cyn oed pensiwn arferol neu ar ymddeoliad hyblyg. | Mae'r Awdurdod Gweinyddu yn penderfynu'r ymarfer y disgresiwn yma. |
| **Rh. 34 (1):**<br><br>Penderfynu ar os am gyfnewid pensiwn bychan i swm unwaith ac am byth neu beidio. | Mae'r awdurdod gweinyddu yn penderfynu ymarfer y disgresiwn o dan Reol 34 i gyfnewid pob pensiwn bychan sydd ddim yn daliad an-awdurdodedig o dan reoliadau CTHeM. |

| | |
|---|---|
| **Rh. 36 (3):**<br><br>Cymeradwyo ymgynghorwyr meddygol (YMAC) ar gael at ddefnydd cyflogwyr (ar gyfer ymddeoliadau salwch). | Mae rhestr o ymarferwyr meddygol annibynnol cofrestredig (YMAC) eisoes wedi ei sefydlu mewn partneriaeth a Chronfa Bensiwn Clwyd. Dim ond y YMAC sydd yn berchen a'r gofynion gymwysterau uchaf yn ôl gofyn y Rheoliadau, a derbynnir. |
| **Rh. 38 (3):**<br>Penderfynu os yw buddiolwr gohiriedig yn cyfarfod a'r meini prawf o fod yn barhaol analluog o gyflawni ei g/chyn swydd oherwydd afiechyd a'i f/bod yn anhebygol o ymgymryd a chyflogaeth cyflogedig cyn oed pensiwn arferol neu am oleiaf tair blynedd, pa un bynnag ddaw gyntaf, pan mae'r cyflogwr wedi peidio a bod | Yr Awdurdod Gweinyddu fydd yn penderfynu cymhwyster yn unol â rheoliadau CPLlL a chyngor meddygol os yw'r cyflogwr wedi peidio â bod. |
| **Rh. 38 (6):**<br>Penderfynu os yw aelod wedi ymddeol oherwydd afiechyd o dan reng 3 yn annhebygol o ymgymryd â chyflogaeth gyflogedig cyn oed pensiwn arferol oherwydd afiechyd pan mae'r cyflogwr wedi peidio â bod. | Yr Awdurdod Gweinyddu fydd yn penderfynu cymhwyster yn unol â rheoliadau CPLlL a chyngor meddygol os yw'r cyflogwr wedi peidio â bod. |
| **Rh. 40 (2), 43(2) & 46(2):**<br><br>Penderfynu pwy i dalu grant marwolaeth. | Mae'r awdurdod gweinyddu yn penderfynu talu unrhyw arian CGY yn unol â'r cyfarwyddiadau a dderbyniwyd drwy'r 'Ffurflen Datgan Dymuniad Grant Marwolaeth'. Lle mae amheuaeth ynglŷn â dilysrwydd dymuniad yr aelod ymadawedig; lle bydd sialens i'r dymuniad; neu ystyrier y dymuniad yn afresymol, rhyddheir y grant marwolaeth i Ysgutorion yr Ystâd. |
| **Rh 49 (1) (c):**<br><br>Penderfynu, yn absenoldeb ffurflen ethol yr aelod, pa fudd sydd yn daladwy pe byddai'r aelod a hawl i fuddion o dan 2 neu ragor o reoliadau am yr un cyfnod o aelodaeth yn y Cynllun. | Mae'r awdurdod gweinyddu yn penderfynu talu'r aelod (neu ei fuddiolwyr) y budd gyda'r gwerth uchaf. |
| **Rh 54 (1):**<br><br>Penderfynu os am sefydlu cronfa ar wahân i gyflogwyr cytundeb mynediad. | Mae'r awdurdod gweinyddu yn penderfynu peidio ag ymarfer ei ddisgresiwn |
| **Rh 59 (1) & (2):**<br><br>Penderfynu os i gael strategaeth weinyddol ysgrifenedig ac, os felly, y pynciau i'w cynnwys | Yn y tymor canolig ymgynghori, a chytuno gyda chyflogwyr y Gronfa ar y strategaeth gweinyddu ysgrifenedig gan gynnwys<br><br>• Cytuno amserau i gyflwyno hysbysebion perthnasol cychwynwyr, terfyniadau etc.<br>• Gosod terfyn amser i gyflwyno adroddiadau cyfraniadau blynyddol<br>• Cytuno ar amserau ymateb i geisiadau am amcangyfrifon a thalu buddion i aelodau. |

| | |
|---|---|
| **Rh 61:**<br><br>Rhaid i bolisi Cyfathrebu osod allan polisi ar ddarpariaeth gwybodaeth a chyhoeddusrwydd i, a chyfathrebu gydag, aelodau, cynrychiolwyr aelodau, aelodau arfaethedig a chyflogwyr y Cynllun; fformat, amlder a ffurf y Cyfathrebu; a hyrwyddiad y Cynllun i aelodau arfaethedig a'u cyflogwyr. | Bydd y Datganiad Polisi Cyfathrebu presennol yn cael ei hadolygu ac adroddiad yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor yn y dyfodol. |
| **Rh 64 (4):**<br><br>Os am sicrhau diwygiad i raddfa cyfrannu'r Cyflogwr os ceir amgylchiadau lle mae'n debygol bydd y Cyflogwr yn gadael y Gronfa. | Mae'r awdurdod gweinyddu yn penderfynu ymarfer y disgresiwn hwn ym mhob achos o'r fath. |
| **Rh 65:**<br>Penderfynu os am sicrhau 'tystysgrif graddau ac addasiadau' newydd os bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn newid y Rheoliadau Buddion fel rhan o 'rannu costau' o dan Reol 63 o Reoliadau CPLlL 2013 | Mae'r awdurdod gweinyddu yn penderfynu ymarfer y disgresiwn hwn ym mhob achos o'r fath. |
| **Rh 69 (1):**<br>Penderfynu amlder taliadau i'w gwneud i'r Gronfa gan Gyflogwyr ac os am godi cost gweinyddu | Mae'r awdurdod gweinyddu yn penderfynu ymarfer y disgresiwn hwn. |
| **Rh 69 (4):**<br><br>Penderfynu ffurf ac amlder yr wybodaeth i ddod gyda'r taliadau i'r Grofna. | Mae'r awdurdod gweinyddu yn penderfynu ymarfer y disgresiwn hwn. |
| **Rh 70:**<br>Os am gyflwyno Cyflogwyr gyda hysbyseb ad-ennill costau ychwanegol a achoswyd o ganlyniad i lefel perfformiad y Cyflogwr. | Mae'r awdurdod gweinyddu am ystyried pob achos ar ei haeddiant, gydag unrhyw benderfyniad ar gostau yn cael ei ddirprwyo i'r Pennaeth Cyllid |
| **Rh 71 (1):**<br><br>Penderfynu os am godi llog ar daliadau hwyr gan Gyflogwyr. | Mae'r awdurdod gweinyddu yn penderfynu ymarfer ei ddisgresiwn i godi llog ar raddfa o 1% yn uwch na'r raddfa sylfaenol, wedi' gymodwy'n chwarterol, ar daliadau cyfraniadau a thaliadau buddion cyfunol hwyr. |
| **Rh 76 (4):**<br>Penderfynu ar drefn bydd yr awdurdod gweinyddol yn ei dilyn wrth ymarfer ei swyddogaeth yng ngham dau o'r DDAM a phenderfynu'r dull fydd y swyddogaethau hynny yn cael eu hymarfer. | Mae'r awdurdod gweinyddu wedi penderfynu bydd Cam 2 o DDAM yn cael eu cynnal gan Bennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol. |
| **Rh 79 (2):**<br>Penderfynu os bydd yr awdurdod gweinyddu yn apelio yn erbyn penderfyniad (neu ddiffyg penderfyniad) Cyflogwr. | Mae'r awdurdod gweinyddu yn penderfynu ystyried pob achos unigol ar ei haeddiant. |

| | |
|---|---|
| **Rh 80 (1) (b):**<br>Rhestru gwybodaeth mae Cyflogwyr i'w ddarparu i alluogi'r awdurdod gweinyddu weithredu'i swyddogaeth. | Bydd yr awdurdod gweinyddu yn penderfynu gweithredu'r disgresiwn hwn drwy negodi a chytuno gyda phob cyflogwr unigol.<br>. |
| **Rh 82 (2):**<br><br>Os am dalu grant marwolaeth sydd yn ddyledus i gynrychiolydd personol unrhyw un sydd yn ymddangos i fod yn fuddiolwr a hawl i'r ystâd heb yr angen am rant profiant / lythyrau gweinyddu lle mae'r talid yn is na'r swm a nodir yn Rh 6 o Ddeddf Gweinyddu Ystadau (Taliad Bychan) 1965. | Mae'r awdurdod gweinyddu yn penderfynu talu'r grant marwolaeth yn unol â chyfarwyddiadau'r ffurflen 'Mynegi Dymuniant Grant Marwolaeth'. Lle mae amheuaeth ar ddilysrwydd dymuniadau'r aelod; neu herio'r mynegiant dymuniad; neu lle mae mynegiant dymuniad yn afresymol, rhyddheir y grant marwolaeth i Ysgutorion yr Ystâd. |
| **Rh 83:**<br>Penderfynu, pan nid yw person (heblaw plentyn cymwys) yn alluog o drin ei faterion, i dalu'r cyfan neu ran o fuddion pensiwn y person hynny i berson arall er ei fydd. | Mae'r awdurdod gweinyddu yn penderfynu ystyried pob achos yn ôl eu haeddiant |
| **Rh 89 (5):**<br>Dyddiad seilio cyfrifon buddion a ymddangosir ar ddatganiadau buddion blynyddol | Mae'r awdurdod gweinyddu yn penderfynu defnyddio'r 31 Mawrth i seilio gwerth buddion presennol ar y Datganiad Buddion Blynyddol |
| **Rh 98 (1) (b):**<br>Cytuno i daliad trosglwyddo swmp. | Mae'r awdurdod gweinyddu yn penderfynu defnyddio ei ddisgresiwn ac i ystyried pob achos yn ôl eu haeddiant. |
| **Rh 100 (68):**<br>Ymestyn y terfan amser arferol ar gyfer derbyn trosglwyddiad tu hwnt i 12 mis yn dilyn ymuno a'r CPLlL. | Cytunir i ymestyn mewn amgylchiadau eithriadol yn unig neu os achoswyd yr oediad gan y Gronfa neu'r cyflogwr perthnasol. |
| **Rh 100 (7):**<br>Caniatau trosglwyddo hawliau pensiwn i'r Gronfa. | Mae'r awdurdod gweinyddu yn penderfynu ystyried pob achos yn ôl eu haeddiant. |
| **Atodlen 1:**<br>Penderfynu bod plentyn mewn addysg neu hyfforddiant galwedigaethol parhaus er gwaethaf toriad. | Mae'r awdurdod gweinyddu yn penderfynu parhau i ystyried toriad un flwyddyn academaidd mewn addysg neu hyfforddiant galwedigaethol fel Dparhaus,. |
| **Atodlen 1:**<br>Penderfynu'r dystiolaeth sydd angen ar gyfer pennu dibyniaeth ariannol partner cydfyw ar aelod o'r cynllun neu gyd-ddibyniaeth ariannol partner cydfyw ac aelod o'r cynllun. | Ar farwolaeth aelod o'r cynllun bydd yr awdurdod gweinyddu yn gwneud cais am dystiolaeth yn unol â diffyniadau'r rheoliadau |

**Atodiad 2**

## Rheoliadau (Darpariaethau Trosiannol, Diogelu & Gwelliant) Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2014

| Rheol | Polisi Arfaethedig |
|---|---|
| **Rh 15 (1) (d):**<br><br>Os i godi tâl ar aelod am amcangyfrif gwerth pensiwn ychwanegol y Cynllun wrth drosglwyddo Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY) /(CGYRC) (Rhannu Cost) mewnol (lle mae'r trefniant wedi cychwyn cyn e 1/4/14). | Mae'r awdurdod gweinyddol yn penderfynu ymarfer ei ddisgresiwn o dan Reol 15 i godi tâl yn erbyn Cronfa CGY yr aelod lle mae wedi gwneud cais am gyfrifiad trawsnewid o Gronfa CGY am yr ail waith ac wedi methu cyflawni'r trawsnewid o fewn tri mis o dderbyn y cyfrifiad. Bydd y gost yn gysylltiedig â chost darparu GTCA ar restr costau darparu manylion ysgariad |
| **Rh 10 (9):**<br>Penderfynu, mewn absenoldeb etholiad gan yr aelod o fewn 12 mis o ddarfod cyflogaeth gydamserol, pa gyflogaeth gyfredol gaiff elwa o gyfuno'r gyflogaeth gydamserol wedi darfod (lle mae mwy nag un gyflogaeth gyfredol). | Mae'r awdurdod gweinyddu yn penderfynu y bydd yn cyfuno'r gyflogaeth wedi darfod gyda'r gyflogaeth sydd yn ymddangos mwyaf o fydd i'r aelod. |
| **Atodlen 2, Paragraff 1 (2) & 2 (2):**<br>Os am 'droi ymlaen' y rheol 85 mlynedd i aelod sydd yn tynnu buddion gwirfoddol ar neu ar ôl oed 55 ond cyn oed 60 mewn sefyllfa lle mae'r cyflogwr wedi peidio â bod. | Bydd yr awdurdod gweinyddol yn ystyried pob achos unigol ar ei haeddiant ac yn cytuno yn unig pan fydd achos busnes cadarn i gyfiawnhau'r gost pan mae cyflogwr wedi peidio â bod. |
| **Rh 3(1) a Rhestr 2, Paragraff 2(1)& 2(2):**<br><br>Os i hepgor gostyngiad actiwaraidd ar fuddion cyn/ac/neu ar ôl Ebrill 2014 mewn achosion lle mae'r cyflogwr wedi peidio â bod. | Gall yr awdurdod gweinyddu ddefnyddio ei ddisgresiwn i benderfynu peidio gweithredu holl neu ran o'r gostyngiad hwn os yw'r cyflogwr wedi peidio â bod. Fodd bynnag, defnyddir y disgresiwn hwn dim ond os oes achos busnes cadarn i gyfiawnhau'r gost. |
| **Atodlen 2, Paragraff 2 (3):**<br>Os i ymofyn awdurdodau cyflogi dalu costau straen y Gronfa yn syth yn dilyn ymddeoliad hyblyg o dan CPLlL 2013, Rheol 30(6) neu wrth hepgor gostyngiadau actiwaraidd o dan Reoliadau Trosiannol 2014, Rhestr 2, paragraff 2(1) neu wrth ryddhau buddion cyn oed 60 o dan Reoliadau BACh 2007, Rheol 30 neu reol 30A. | Mae'r awdurdod gweinyddu yn penderfynu bod gofyn i Gyflogwyr dalu'r gost straen pensiwn llawn a godir o ymddeoliadau cynnar a hynny, fel arfer, o fewn cyfnod dim mwy na phum mlynedd. |
| **Rh 12 (6):**<br>Os am ddefnyddio tystysgrif wedi ei chynhyrchu gan YMAC (Ymarferwr Meddygol Annibynnol Cofrestredig) o dan Gynllun 2008 i wneud penderfyniad ymddeol salwch o dan Gynllun 2014. | Mae'r awdurdod gweinyddu yn defnyddio ei ddisgresiwn pan mae'r cyflogwr wedi peidio â bod. |

| | |
|---|---|
| **Rh 17 (5 to 8):**<br><br>Penderfynu pwy ddylid talu grant marwolaeth. | Mae'r awdurdod gweinyddu yn penderfynu talu grant marwolaeth yn unol a chyfarwyddid yn y 'Ffurflen Mynegi Dymuniad Grant Marwolaeth'. Lle mae amheuaeth ynglŷn â dilysrwydd dymuniadau'r ymadawedig; os bydd herio'r dymuniad; neu lle mae'r dymuniad yn afresymol, fe ryddheir y grant marwolaeth i Ysgutorion yr Ystâd. |
| **Rh 22 (2):**<br>Os i anfon rhybudd adennill costau ychwanegol i Gyflogwr a achoswyd o ganlyniad i lefel perfformiad y Cyflogwr | Mae'r awdurdod gweinyddu yn penderfynu ystyried pob achos yn ôl ei haeddiant, gyda'r penderfyniad yn cael ei ddirprwyo i'r Pennaeth Cyllid. |
| **Rh 22 (1):**<br>Gosod allan y wybodaeth dylid Cyflogwyr ei ddarparu i alluogi'r awdurdod gweinyddu i gyflawni ei swyddogaethau. | Mae'r awdurdod gweinyddu, o fewn rheswm, yn penderfynu defnyddio ei ddisgresiwn drwy negodi a chytuno gyda phob Cyflogwr unigol. |
| **Rh 3 (6), 4 (6) (c), 8 (4), 10 (2) (a), 17 (2) (b):**<br>O ran aelod lle mae Rheol 10, Rheoliadau BACh 2007 yn berthnasol (defnyddio cyfartaledd cyflog 3 blynedd fel cyflog terfynnol). | Mae'r awdurdod gweinyddu yn penderfynu defnyddio ei ddisgresiwn ar ran aelod ymadawedig a defnyddio'r cyfnod mwyaf manteisiol ar gyfer cyflog terfynol. |
| **Rh 3 (6), 4 (6) (c), 8 (4), 10 (2) (a), 17 (2) (b):**<br>Ethol ar ran aelod ymadawedig gyda thystysgrif gwachodaeth buddion pensiwn h.y. penderfynu'r ffigwr cyflog gorau i'w ddefnyddio i gyfrifo buddion. (torri/rhwystredigaeth gyflog cyn 1.4.08.). | Mae'r awdurdod gweinyddu yn penderfynu defnyddio ei ddisgresiwn ar ran aelod ymadawedig a defnyddio'r cyfnod mwyaf manteisiol ar gyfer cyflog terfynol. |
| **Atodlen 1:**<br>Penderfynu bod plentyn mewn addysg neu hyfforddiant  galwedigaethol parhaus er gwaethaf toriad. | Mae'r awdurdod gweinyddu yn penderfynu parhau i ystyried toriad un flwyddyn academaidd mewn addysg neu hyfforddiant galwedigaethol fel parhaus,. |
| **Rh 17 (9) (b):**<br>Decide evidence required to determine financial dependence of cohabiting partner on scheme member or financial interdependence of cohabiting partner and scheme member. | The Administering Authority, upon the death of the member, will request evidence, as defined in the regulations. |
| **Rh 3 (13):**<br>Penderfynu ar bolisi lleihau elfennau pensiwn yn daladwy ar hawliau cyn 1 Ebrill 2014 yn dilyn ail gyflogaeth. | Parhau a'r polisi penderfynwyd arno gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod 17 Mehefin 2014, sef i beidio lleihau hawliau cyn Ebrill 2014, ac eithrio achosion salwch Rhenc 1 a 2 rheoliadau 2008, a phob ymddeoliad salwch rheoliadau cyn 2008. |
| **Rh 15 (1) (c):**<br>Ymestyn y cyfnod ar gyfer cyfalafu cytundebau blynyddoedd ychwanegol. | Mae'r awdurdod gweinyddu yn penderfynu defnyddio ei ddisgresiwn i dybio bod etholiadau cyfalafu cytundebau blyndyddoedd ychwanegol wedi' gwneud ar ddyddiad yr ymddeoliad pan mae er bydd yr aelod dan sylw. |

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Pensiynau** |
| **DYDDIAD** | **10 Tachwedd 2015** |
| **TEITL** | **Staffio'r Adain Weinyddu o Ionawr 2016** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | **Argymellion ar gyfer sefydlu tîm i weithredu ar gysoni Isafswm Pensiwn Gwarantiedig (IPG)** |
| **AWDUR** | **Dafydd L Edwards – Pennaeth Cyllid** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Cymeradwyo ariannu adnoddau staff ar gyfer cysoni IPG a derbyn strwythur adain weinyddu newydd.** |

## 1. Cefndir

1.1 Yn ei gyfarfod 16 Mehefin 2015 adroddwyd i'r Pwyllgor yr angen i Gronfa Bensiwn Gwynedd gysoni Isafswm Pensiwn Gwarantedig (IPG) aelodau unigol yn erbyn yr hyn a ddelir gan CThEM. Cytunwyd yn y cyfarfod hynny i ariannu £8,300 y flwyddyn am feddalwedd pwrpasol i ddechrau ar y gwaith rhagarweiniol i gymharu ffigyrau'r CThEM a data'r Gronfa

1.2 Mewn ymateb i gais Pwyllgor Pensiynau Llywodraeth Leol (PPLlL) amcangyfrifwyd cost yr ymarferiad fel £200,000 yn seiliedig ar waith ymchwil sylfaenol cronfeydd eraill eisoes wedi cychwyn ar yr ymarferiad, a'r nifer o gofnodion angen eu cysoni gan Wynedd.

## 2. Goblygiadau staffio

2.1 Bydd Rheolwr Pensiynau presennol y Gronfa yn ymddeol ar 31 Rhagfyr 2015, gyda'r gwaith heriol o gysoni IPG a Phrisiant 2016 i'w wynebu. Yn dilyn trafodaeth rhwng y Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol a'r Pennaeth Cyllid, cynigodd dychwelyd dau ddiwrnod yr wythnos, am 12 mis, i sefydlu ac arolygu tîm i ymgymryd â chysoni IPG ac i gynnig ei gyngor a phrofiad i'w olynydd ar y prisiant. Gofynnir i'r Pwyllgor gymeradwyo cost y swydd hybyg.

2.2 Yn ogystal rhagwelir angen secondio aelod staff profiadol i arwain, ac un staff llawn amser, dros dro ar gytundeb 12 mis yn y lle cyntaf i ddechrau ar y gwaith. Pe gytunir y Pwyllgor cyflwynir adroddiad pellach ar gynnydd y gwaith ar ôl chwe mis gydag argymelliadau pellach ar sut i fynd ymlaen.

2.3 Gan nad yw'r swydd ddisgrifiadau wedi' u cytuno arnynt yn derfynol ar hyn o byd, yn seiliedig ar swydd ddisgrifiadau presennol yr adain credir bydd angen y costau canlynol yn y flwyddyn gyntaf:

| Manylion / teitl y swydd | Graddfa arfaethedig | Cyflog Blynyddol llawn amser | Cyfanswm blynyddol y swyddi |
|---|---|---|---|
| Arolygwr Cysoni IPG ac ymgynghorwr Prisiant (16 awr yr wythnos) | S3 | £27,123 | £11,729 |
| Arweinydd tîm cysoni IPG Ll/A (secondio) | S2 | £24,472 | £24,472 |
| Cymhorthydd cysoni IPG LL/A (recriwtio) | GS5 | £17,372 | £17,372 |
| **CYFANSWM BLYNYDDOL** | | | **£53,573** |

2.5 Rhagwelir i'r dasg gymryd o leiaf dwy flynedd i'w chyflawni, ond gyda rol yr 'Arolygwr' yn dod i ben ar ôl 12 mis ar ol sefydlu'r gweithdrefnau a chyflawni gwaith y prisiant .

**3. Argymhelliad**

3.1 Gofynnir i aelodau gymeradwyo gwariant ar gyfer sefydlu tîm i gysoni IPG yn unol pwyntiau 2.1 i 2.5 uchod, ar uchafswm cost o **£53,573** yn y 12 mis cyntaf. Dylid pwysleisio mae ymarferiad unwaith ac am byth fydd hwn a cost blwyddyn gyntaf yr ymarferiad yw hwn.

3.2 I dderbyn adroddiad pellach ar ôl chwe mis ar gynnydd yn y gwaith a'r anghenion adnoddau wrth symud ymlaen i ddarfod y dasg.